

**GWERTH GORAU AR GYFER LANDLORDIAID CYMDEITHASOL**  
**COFRESTREDIG - PAPUR YMGYNGHOROL**

**1. Cynnig**

1.1 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu rhoi cyfarwyddyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar sut i gymhwyso egwyddorion 'Gwerth Gorau' i'w gwaith. Mae'r papur ymgynghorol hwn yn nodi:

- \* egwyddorion allweddol y cynnig
- \* y paratodau y mae angen i Landlordiaid eu gwneud
- \* sut y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi Landlordiaid er mwyn cyflwyno Gwerth Gorau

1.2 Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn falch i dderbyn eich sylwadau ar ynrhyw ran o'r papur hwn, ond mae wedi canolbwyntio ar nifer o gwestiynau penodol y carai i chwi roi eich sylwadau arnynt.

1.3 Bydd ymarfer ymgynghori ar wahân yn ystod 2001/2 ar y newidiadau arfaethedig yn y modd y rheoleiddir Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys y cwestiwn sut y byddir yn asesu sut y mae Landlordiaid yn cydymffurfio â Gwerth Gorau, o 2002/3 ymlaen.

1.4 Bydd y cyfarwyddyd Gwerth Gorau a gyhoeddir gennym ni yn dilyn yr ymgynghori presennol hwn yn dod i fod yn arfer sy'n cael ei argymhell ar gyfer Landlordiaid yn ystod 2001/2. Ein bwriad yw i'r elfennau allweddol yn y cyfarwyddyd gael eu corffori wedyn yn y Gofynion Rheoliadol o 1 Ebrill 2002 ymlaen, wedi i'r newidiadau yn y fframwaith rheoliadol gael eu rhoi ar eu gwedd derfynol.

1.5 Credwn fod Gwerth Gorau yn berthnasol i holl weithgareddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd angen i Landlordiaid sicrhau bod yr holl wasanaethau a phrosesau yn cael eu cynnwys yn y rhaglenni a ddatblygir ganddynt.

1.6 Bwriadwn i'r cyfarwyddyd Gwerth Gorau gael ei gymhwyso i bob Landlord Cymdeithasol sydd â mwy na 250 uned o lefydd byw o fewn eu cyfundrefn neu Grwp. Fodd bynnag, byddwn yn annog Landlordiaid sydd â llai na hynny i gymhwyso'r un egwyddorion i'w gwaith.

**2. Cyflwyniad**

2.1 Mae Gwerth Gorau yn rhan allweddol o'r agenda gan Lywodraeth y DG a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth Gwerth Gorau i fod yn

gyfrifoldeb statudol ar gyfer awdurdodau lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999.

- 2.2 Er nad yw Gwerth Gorau yn ddyletswydd statudol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu bod ei egwyddorion yr un mor berthnasol iddynt hwy. Adlewyrchir hyn yn y Strategaeth Dai Genedlaethol (ddrafft), sydd yn cynnwys ymrwymiad i gymhwyso Gwerth Gorau i'r holl dai cymdeithasol yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cynulliad wedi annog Landlordiaid i fabwysiadu egwyddorion Gwerth Gorau wrth gynllunio ac adolygu eu gweithgareddau.
- 2.3 Paratowyd y papur ymgynghorol hwn gan is-grwp o Grwp Gwerth Gorau Tai y Cynulliad Cenedlaethol (gweler Atodiad 1 am yr aelodau). Sefydlwyd y Grwp Gwerth Gorau Tai yn Rhagfyr 1998 er mwyn monitro'r modd y cymhwysir Gwerth Gorau drwy holl sector tai cymdeithasol. Datblygwyd y papur hwn gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cydweithrediad clòs â Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru. Rydym yn awr yn dymuno derbyn sylwadau gan yr holl Landlordiaid Cymdeithasol a'u buddiolwyr, sef yn arbennig denantiaid a chwsmeriaid eraill.
- 2.4 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn sylweddoli, er gwaethaf y ffaith eu bod ill dau yn landlordiaid cymdeithasol, bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn wahanol iawn i awdurdodau lleol. Felly nid yw'n briodol disgwyl i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gymhwyso Gwerth Gorau yn yr un ffordd yn union. Rydym yn cydnabod yr achos yn nhermau busnes dros ganiatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn hyblyg a dyfeisgar. Mae arnom eisiau darparu ffordd o ymdrin â Gwerth Gorau sydd yn adlewyrchu hyn ac sydd yn briodol ar gyfer y sector.
- 2.5 Byddwn yn gweithio tuag at gynyddu ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o fframwaith Gwerth Gorau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol. Yna yn eu tro fe ddisgwyliwn i Landlordiaid Cymdeithasol weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar eu hymdrechion ym maes Gwerth Gorau.

### **3. Beth a olygwn wrth Wrth Gorau? Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?**

- 3.1 Mae Gwerth Gorau wedi cael ei ddisgrifio fel 'dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus'. I'w roi yn gryno, mater ydyw o adolygu holl weithgareddau corff yn barhaus, a chanfod y ffyrdd gorau o wella gwasanaethau.
- 3.2 Ein hamcanion ar gyfer Gwerth Gorau yw:

\* hyrwyddo gwelliant parhaus yn y modd y cyflwynir gwasanaethau

- \* cynyddu dylanwad tenantiaid ar y modd y cyflwynir gwasanaethau
- \* darparu gwasanaethau cost-effeithiol, effeithlon ac effeithiol

- 3.3 Nid yw'r cysyniadau hyn yn rhai newydd i'r rhan fwyaf o Landlordiaid Cymdeithasol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn sylweddoli bod sawl Landlord Cymdeithasol eisoes wedi bod yn ymgymryd â rhaglenni gwella parhaus ers nifer o flynyddoedd. Gwnaed cynnydd mawr gan nifer ohonynt, ac er nad ydynt efallai wedi bod yn defnyddio terminoleg Gwerth Gorau, meant wedi bod yn cymhwysio llawer o'i egwyddorion allweddol. Wrth ddyfeisio ein dull o ymdrin â Gwerth Gorau, rydym yn awyddus i ganiatáu i Landlordiaid adeiladu ar sail yr hyn a sicrhawyd, gan sicrhau ar yr un pryd bod eu dulliau o weithredu yn gadarn a chynhwysfawr.
- 3.4 Mae arnom eisiau i Landlordiaid Cymdeithasol ddatblygu fframwaith a methodoleg clir ar gyfer asesu Gwerth Gorau. Fodd bynnag, nid oes arnom eisiau mynnu y cedwir at yr union drefn yn ormodol gyda manylion, er enghraifft o ran yr union ddull o adolygu gwasanaethau, neu sut y dylai Cynlluniau Perfformio gael eu strwythuro. Mewn geiriau eraill, nid dim ond un ffordd 'gywir' o wneud pethau sydd. Bydd ein cyfarwyddyd yn cynnwys rhai elfennau gorfodol ond o fwriad fe gedwir nifer y rhain yn fychan.
- 3.5 Credwn y bydd cymhelliant ac ymrwymiad corfforaethol yn hollbwysig. Ni fydd Landlordiaid Cymdeithasol unigol yn deall diben Gwerth Gorau os byddant yn meddwl amdano fel rhywbeth y mae angen ei wneud dim ond oherwydd bod y Rheoleiddiwr yn mynnu hynny. i fod yn llwyddiannus, mae angen i Landlordiaid Cymdeithasol wneud Gwerth Gorau yn nodwedd ganolog yn niwylliant eu sefydliad. i gael y budd mwyaf posibl o Werth Gorau, bydd angen iddynt ei dderbyn â breichiau agored. Efallai y bydd angen newid sylweddol mewn diwylliant ac yn y tymor byr gall hynny brofi'n anodd.
- 3.6 Mae gan aelodau byrddau ac uwch reolwyr rannau hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau'r ymrwymiad hwn a gofalu na fydd mwy o darfu ar bethau nag sydd raid yn y tymor byr. Bydd yn rhaid wrth ymagwedd gorfforaethol gyda Gwerth Gorau yn cael ei arwain gan y rhai sydd yn y safleoedd uchaf. Mae Gwerth Gorau yn dibynnu ar arweinyddiaeth effeithiol. Yr her ar gyfer uwch reolwyr fydd sicrhau ei fod yn dod yn rhan annatod o waith pawb, nid dim ond tasg a ychwanegir yn ddiweddarach.

#### **4. Y Disgwyliadau Allweddol**

- 4.1 Fel y dywedwyd uchod, rydym yn awyddus i ganiatáu hyblygrwydd wrth ymdrin â'r mater. Mae arnom eisiau parhau i ganiatáu i Landlordiaid Cymdeithasol ddyfeisio eu dulliau eu hunain ar gyfer adolygu gwasanaethau ac ar gyfer datblygu eu nodau.

- 4.2 Wrth lunio eu hymagwedd, rydym yn disgwyl i Landlordiaid Cymdeithasol roi rhan weithredol i'w tenantiaid, a lle bo modd i'w cwsmeriaid eraill. Mae'n rhaid i'r fframwaith a geir o ganlyniad i Werth Gorau sicrhau y gall tenantiaid fod â rhan yn y broses drwy'r amser, er enghraifft wrth adolygu gwasanaethau, cytuno ar dargedau gwasanaeth a datblygu Cynlluniau Perfformiad.
- 4.3 Bydd gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol hefyd yn hanfodol bwysig. Dylai Landlordiaid Cymdeithasol ymgynghori â hwy wrth ddyfeisio eu rhaglenni a dylent gydweithio ag awdurdodau lleol sy'n ymgymryd ag adolygiadau corfforaethol sydd yn effeithio ar waith Landlordiaid Cymdeithasol, er enghraifft mentrau adfywio a strategaethau gofal yn y gymuned.
- 4.4 Dylai Landlordiaid Cymdeithasol fod mor agored ag sy'n bosibl wrth ymgymryd â'u gwaith, ond sylweddolwn serch hynny na fydd hi'n bosibl efallai rhoi rhan i'r holl fuddiolwyr mewn adolygiadau sy'n ymdrin â materion cyfrinachol neu fasnachol sensitif.
- 4.5 Rydym o blaid hyblygrwydd, ond ar yr un pryd rydym yn cynnig y dylid cael pum elfen hanfodol yn y broses. Mae hynny'n fodd i sicrhau bod yr holl Landlordiaid Cymdeithasol yn mabwysiadu'r egwyddorion sydd y tu ôl i'r drefn. Nodir y pum elfen hyn yn adrannau 5 i 9 isod.

CWESTIWN 1: A oes gennych unrhyw farn ar bum elfen hanfodol y fframwaith? A ydynt yn briodol? A ydynt yn ddigonol?

## **5. Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau**

- 5.1 Bydd disgwyl i Landlordiaid Cymdeithasol baratoi Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau, a ddylai fod yn ddogfen gyhoeddus a ddiwedderir bob blwyddyn. Y Cynllun Perfformiad ddylai fod y brif fecanwaith sy'n galluogi'r Landlord Cymdeithasol i roi cyfrif am ei berfformiad i denantiaid a buddiolwyr. Dylai edrych yn ôl ar y perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac ymlaen at y targedau y mae'r corff yn cynllunio i'w cyrraedd yn ystod y flwyddyn neu'r blynyddoedd i ddod. Yn benodol, cynigiwn y dylai Cynllun pob Landlord Cymdeithasol gynnwys:

- : datganiad o nodau strategol y Landlord Cymdeithasol
- : crynodeb o'i berfformiad yn erbyn nodau a thargedau a ddatganwyd
- : cymhariaeth rhwng ei ganlyniadau a'r hyn a gyflawnwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill, darparwyr tai cymdeithasol eraill, a'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau a gyhoeddwyd
- : adroddiad ar ganfyddiadau allweddol *holl* adolygiadau gwasanaeth y flwyddyn ddiwethaf
- : crynodeb o'r cynlluniau gweithredu sy'n codi o'r adolygiadau hynny

- : amlinelliad o'r rhaglen adolygiadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod
- : datganiad yn nodi sut y bydd y Landlord Cymdeithasol yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb yn ei adolygiadau
- : datganiad am ei dargedau ar gyfer y flwyddyn nesaf, a thargedau tymor hwy
- : sylwadau ar y dulliau a ddefnyddir ganddo er mwyn cyrraedd y targedau hyn

- 5.2 Dylai'r Cynllun Perfformiad fod yn ddogfen gorfforaethol sylfaenol ac felly dylai'r Bwrdd ei gymeradwyo. Fel rhan o'r broses, dylai'r Bwrdd gytuno ar y rhaglen ar gyfer adolygiadau perfformiad, sut y byddant yn cael eu gwneud a sut y bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno, eu rhoi ar waith a'u hadolygu. Dylai'r Cynllun Perfformiad hefyd fod yn gyson â'r Cynllun Busnes. i rai Landlordiaid Cymdeithasol, efallai y bydd yn gam rhesymol cyfuno'r Cynllun Perfformiad a'r Cynllun Busnes a/neu yr Adroddiad Blynyddol.
- 5.3 Er mwyn sicrhau bod y Landlord yn gweithredu mewn modd mor agored ac atebol ag sy'n bosibl, dylid dosbarthu'r Cynllun Perfformiad neu grynodedd ohono i lawer o denantiaid a buddiolwyr a phobl yn y cymunedau a wasanaethir gan y Landlord Cymdeithasol. Rhoddir manylion yn adran 11 am yr adegau erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi Cynlluniau Perfformiad.
- 5.4 Bydd gosod targedau yn weithgaredd hollbwysig wrth baratoi'r Cynllun Perfformiad. Mae gan y rhan fwyaf o Landlordiaid Cymdeithasol eisoes ystod o dargedau gwasanaeth wedi'u sefydlu, ond o dan Werth Gorau efallai y bydd angen adolygu ac ehangu'r rhain. Wrth fynd i'r afael â hyn, dylai Landlordiaid Cymdeithasol sicrhau bod yr holl dargedau perfformiad yn benodol, mesuraddwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol.
- 5.5 Er mwyn helpu Landlordiaid Cymdeithasol, bwriadwn gynnwys model o fframwaith ar gyfer Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau fel rhan o'r cyfarwyddyd terfynol.

## **6. Methodoleg ar gyfer Adolygiadau Gwasanaeth**

- 6.1 Disgwylir i Landlordiaid Cymdeithasol ddatblygu methodoleg glir ac effeithiol ar gyfer adolygu eu gwasanaethau, eu gweithgareddau a'u prosesau, gan ddefnyddio egwyddorion Gwerth Gorau: Herio, Ymgynghori, Cymharu a Chystadlu.

6.1.1: HERIO: mae hyn yn gofyn am werthuso sylfaenol – pam y mae'r Landlord Cymdeithasol yn cyflawni'r gweithgaredd, a pham ei wneud yn y modd hwnnw? A yw cwsmeriaid, neu rywrai eraill, yn elwa? Bydd yn bwysig dadansoddi diwylliant y corff. A yw'r staff yn cael eu grymuso? Ai ymateb i anghenion cwsmeriaid yw'r prif nod? A yw'r

gost yn adlewyrchu gwerth i gwsmeriaid? A oes ffyrdd eraill o sicrhau gwell canlyniad?

6.1.2: YMGYNGHORI: er mwyn ymgynghori, mae angen i'r Landlord Cymdeithasol roi rhan i'w gwsmeriaid a'i fuddiolwyr mewn cynllunio, gosod safonau, adolygu, gwneud penderfyniadau a monito cynnydd. Bydd yn hollbwysig datblygu dulliau clir ac effeithiol o sicrhau adborth, a sicrhau y ceir cytgorff mor glòs ag sy'n bosibl rhwng blaenoriaethau'r cwsmeriaid a nodau'r corff. Dylai Landlordiaid Cymdeithasol hefyd ystyried defnyddio technegau ymchwil farchnad broffesiynol.

6.1.3: CYMHARU: mae hyn yn golygu astudio perfformiad y corff mewn perthynas ag eraill. Gellir cymharu ar sawl lefel, a dyna y dylid ei wneud, er enghraifft y lefel genedlaethol, leol neu ranbarthol, ac o fewn y corff ei hun. Wrth i ddisgwyliadau cystadleuaeth a'r cwsmeriaid gynyddu, bydd yn fwyfwy pwysig i Landlordiaid Cymdeithasol gymharu'r canlyniadau a gânt â chanlyniadau eu cymhreiriaid. Wrth wneud hyn, mae angen iddynt fynd y tu hwnt i ddibynnu ar y Dangosyddion Perfformiad a gyhoeddir gan y Cynulliad.

6.1.4: Mae angen i Landlordiaid Cymdeithasol sefydlu trefniadau 'meincnodi' fel rhan o ffordd gyfunol o ymdrin â gwybodaeth reolaethol. Gall meincnodi ganolbwyntio ar gostau, prosesau a chanlyniadau ac mae i'r rhain i gyd werth. Fodd bynnag, mae angen ymroddiad sylweddol er mwyn meincnodi'n llwyddiannus, a pharoddrwydd i ddethol perfformwyr da i feincnodi gyda hwy.

6.1.5: Un elfen hanfodol yw cymharu pa mor fodlon yw defnyddwyr ar wahanol rannau o'r gwasanaeth. Boddhad cwsmeriaid yw un o'r mwyaf hanfodol o'r holl brofion a bydd hyn yn gymorth i'r Landlord Cymdeithasol wrth iddo ganfod meysydd lle ceir tanberfformiad cymharol, fel y gellir eu hadolygu'n fuan.

6.1.6: CYSTADLU: er mwyn cystadlu, mae angen i'r Landlord Cymdeithasol adolygu ei drefniadau presennol ar gyfer darparu ei wasanaethau a'i holi ei hun 'ai'r rhain yw'r trefniadau mwyaf effeithiol a chost-effeithiol posibl'? Mae'n hollbwysig ymgynghori â thenantiaid ac eraill sy'n defnyddio'r gwasanaethau trwy gydol y broses.

6.1.7: Dylid adolygu a rhoi prawf marchnad ar bob contract, a'u rhoi allan i dendr mewn rhai amgylchiadau. Mae angen ystyried ffurfiau dyfeisgar ar contractau, er enghraifft parteriaethu. Y pwynt allweddol yw 'beth sy'n bwysig yw beth sy'n gweithio orau'. Mae angen i Landlordiaid Cymdeithasol ddyfeisio dulliau clir o asesu pa un o'r pedwar dull isod a fydd yn rhoi'r gwerth gorau i denantiaid, ac i gwsmeriaid eraill:

- darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol, yn fewnol
- contractio'r gwasanaeth allan, yn dilyn tendro cystadleuol
- ffurfio cyd-fenter neu bartneriaeth yn dilyn cystadlu allanol

- cynnig y gwasanaeth i ddarpar-gwsmeriaid eraill

- 6.2 Wrth adolygu gwasanaethau, dylid manteisio ar y cyfle i sefyll yn ôl a chanfod ffyrdd o wella gwasanaethau i denantiaid am yr un gost neu lai o gost – neu am gost uwch os yw'r cwsmeriaid yn fodlon ar hynny. Os gwneir hyn mewn modd agored a chan ddangos brwdfrydedd, gall fod yn gyfle i ddyfeisio dulliau newydd yn hytrach na bod dan orfodaeth fiwrocrataidd.

CWESTIWN 2: a oes gennych fel Landlord Cymdeithasol eisoes fecanwaith ar gyfer adolygu gwasanaethau? A yw'r corff yn glir ynghylch sut y mae angen ei addasu os o gwbl er mwyn bodloni egwyddorion Gwerth Gorau?

- 6.3 Wrth adolygu, dylid edrych i'r tymor hwy. Dylai pob adolygiad arwain at gynllun gweithredu, gan nodi'r amcanion, y dangosyddion perfformiad a'r targedau ar gyfer y swyddogaeth, a sut y mae'r rhain i'w cyflawni. Dylai cynlluniau gweithredu hefyd gynnwys mecanwaith ar gyfer monitro ac adolygu targedau yn ystod cyfnod yr adolygiad.
- 6.4 Ar gyfer pob adolygiad, dylid cael cyfarwyddiadau clir, yn hysbysu'r rhai sy'n cymryd rhan am union amrediad yr adolygiad, pa mor hir y dylai'r adolygiad ei gymryd a beth y disgwylir iddynt ei sicrhau. Dylid rhoi gwybod i bawb beth yw'r cyfarwyddiadau.
- 6.5 Mae'n bwysig rhoi rhan i denantiaid a chwsmeriaid ym mhob agwedd ar Werth Gorau. Mae'n arbennig o bwysig wrth wneud adolygiadau a gosod safonau gwasanaeth. Dylai Landlordiaid Cymdeithasol gynnig cymaint o hyfforddiant a chefnogaeth ag y gallant. Sylweddolwn nad yw bob amser yn hawdd perswadio tenantiaid i wasanaethu ar dimau adolygu neu fynychu grwpiau ffocws, ond pwysleisiwn y gwerth sydd i hyn.
- 6.6 Wrth geisio rhoi rhan i denantiaid, mae profiad awdurdodau lleol a phrosiectau peilot yn awgrymu ei bod yn well efallai peidio â defnyddio 'Gwerth Gorau' a'r derminoleg sy'n mynd gydag ef ar y dechrau – nid yw jargon yn tueddu i wneud i bobl fod eisiau ymuno yn y fenter ar y cychwyn. Mae angen i gyrff ganolbwyntio ar faterion sy'n peri pryder, gan adeiladu wedyn ddealltwriaeth o egwyddorion Gwerth Gorau trwy gyfrwng hyfforddiant a chefnogaeth.

## **7. Rhaglen gynlluniedig o Adolygiadau Gwasanaeth**

- 7.1 Cynigiwn fod pob Landlord Cymdeithasol yn datblygu rhaglen dreigl o adolygiadau gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar eu busnes yn cael ei hadolygu o fewn cyfnod o ddim mwy na 5 mlynedd. Rhaid i bob landlord unigol benderfynu ym mha drefn yn union y gwneir

yr adolygiadau. Efallai y bydd Landlordiaid Cymdeithasol yn dymuno cychwyn eu rhaglenni gyda rhai adolygiadau syml, yn gymorth i'r rhai sy'n cymryd rhan ddeall ac ymrwymo i'r broses. Fodd bynnag, cynghorir Landlordiaid Cymdeithasol i fynd i'r afael yn fuan ag unrhyw weithgareddau lle ceir tanberfformiad difrifol. Efallai y bydd yn ddoeth hefyd i Landlordiaid Cymdeithasol flaenoriaethu adolygiadau o weithgareddau lle ceir gwariant mwy sylweddol. Hyd nes y bydd y rhain wedi eu hadolygu, bydd yn anodd barnu a yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ai peidio.

- 7.2 Mae Gwerth Gorau yn darparu cyfle i adolygu gwasanaethau o safbwynt y cwsmer. Bydd yn hanfodol ymgynghori â'r holl drigolion ynghylch y rhaglen, ac am sut y mae gwasanaethau i'w parselu at ddibenion yr adolygiad. Dylai barn tenantiaid am y perfformiad presennol fod yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ym mha drefn y dylid cynnal yr adolygiadau. Unwaith y cytunir arni, dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r rhaglen.
- 7.3 Sylweddolwn y bydd y blaenoriaethau yn newid mewn cyfnod o 5 mlynedd. Os caiff trefn yr adolygiadau ei newid er mwyn adlewyrchu hynny, dylid esbonio'r rhesymau dros wneud hynny i'r cwsmeriaid pan gyhoeddir y Cynllun Perfformiad nesaf.
- 7.4 Dylai Landlordiaid Cymdeithasol ystyried adolygiadau 'traws-dorri' o fewn eu rhaglen gyfan. Er enghraifft, trwy edrych ar holl ystod ei wasanaethau i grwp cleientau diffiniedig megis pobl oedrannus, neu'r tenantiaid mewn ardal arbennig. Mae'r profiad a gafwyd mewn manau eraill wedi dangos y gall adolygiadau 'traws-dorri' ganolbwyntio'n gliriach ar ddefnyddiwr y gwasanaeth ac y gall hyrwyddo meddylfryd mwy radical. Fodd bynnag, maent yn golygu defnyddio llawer o adnoddau oherwydd fod yn rhaid i'r Landlord Cymdeithasol edrych ar gynifer o weithgareddau ar unwaith. Bydd yn bwysig sicrhau cydbwysedd trwy gael adolygiadau penodol ar gyfer gwasanaethau arbennig hefyd.
- 7.5 Pan reolir stoc ar ran Landlord Cymdeithasol gan Landlord Cymdeithasol arall neu gan asiant rheoli sydd heb fod yn gofrestredig, bydd angen i'r rhai sy'n ymwneud â hyn benderfynu sut i drefnu'r broses adolygu. Er enghraifft, bydd angen i ddarparwyr tai lle rhoddir cefnogaeth ystyried sut i gynnal eu hadolygiadau gwasanaeth lle mae'r gwasanaethau hynny yn cael eu darparu gan rywun arall. Bydd angen i bawb gytuno yn glir sut y bydd adolygiadau gwasanaeth Gwerth Gorau yn wahanol i brosesau adolygu eraill, e.e. adolygiadau blynyddol prosiectau.
- 7.6 Dylai Landlordiaid Cymdeithasol adeiladu i mewn i'w rhaglenni adolygu gwasanaethau fecanwaith ar gyfer asesu'r broses yn annibynnol. Mater i bob Landlord Cymdeithasol fydd pa mor aml i wneud hyn, ond argymhellir cynnal 'awdit' bob hyn a hyn, naill ai gan rywun o'r tu allan



i'r corff, neu trwy'r archwilwyr mewnol, er mwyn sicrhau bod y broses adolygu gwasanaeth yn ddigonol.

- 7.7 Sylweddolwn y bydd angen efallai i Landlordiaid Cymdeithasol, wrth iddynt gynllunio eu rhaglenni adolygu gwasanaeth, adolygu llai o weithgareddau yn y flwyddyn gyntaf nag yn y blynyddoedd wedyn. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer 'cychwyn yn yr unfan' ac yn rhoi iddynt amser i ddysgu oddi wrth yr adolygiadau cyntaf. Er hynny, byddem yn rhybuddio rhag rhoi gormod o bwysau ar ran olaf y rhaglen.

## **8. Cytundebau Cyfranogiad Tenantiaid**

- 8.1 Dylai pob Landlord Cymdeithasol ddatblygu Cytundeb (neu Gytundebau) Cyfranogiad Tenantiaid, yn nodi sut y bydd y Landlord Cymdeithasol yn rhoi rhan i'w denantiaid yn ei weithgareddau, a pha adnoddau a gynigir er mwyn cefnogi hyn. Dylai Landlordiaid Cymdeithasol gyfeirio at y cyfarwyddyd a roddwyd ar wahân gan y Cynulliad Cenedlaethol yn Chwefror 2000. Disgwylir i Landlordiaid Cymdeithasol fod yn gweithio tuag at weithredu'r Cytundebau Cyfranogiad Tenantiaid yn llawn erbyn Ebrill 2001.
- 8.2 Mae Cytundebau Cyfranogiad Tenantiaid yn gytundebau ffurfiol, sy'n amcanu at gael rhagor o denantiaid i gymryd rhan weithredol yng ngwaith pob Landlord Cymdeithasol, i gyfrannu at y broses o wella'n barhaus. Dylent fod yn elfen allweddol yn fframwaith Gwerth Gorau'r Landlord Cymdeithasol. Asesu'r Cytundeb a'r gwaith a wneir er mwyn ei wneud yn weithredol fydd un o'r prif ffyrdd y bydd perfformiad y Landlord Cymdeithasol yn cael ei arfarnu yn ystod awdit (cyn ac ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu rheoliadau Landlordiaid Cymdeithasol).

## **9. Ffyrdd Clir o Fesur ac Arfarnu Boddhad Cwsmeriaid**

- 9.1 Cynigiwn y dylai pob Landlord Cymdeithasol ddatblygu dulliau clir ar gyfer mesur a rhoi adroddiadau ar ba mor fodlon yw'r cwsmeriaid ar ei wasanaethau. Dylai'r dulliau hyn gyflenwi'r trefniadau ar gyfer rhoi rhan i'r cwsmeriaid, yn unol â'r hyn a nodir yn y Cytundeb(au) Tenantiaid. Bydd lefelau boddhad tenantiaid a chwsmeriaid eraill yn brawf allweddol i farnu a yw dull Landlord Cymdeithasol o ymdrin â Gwerth Gorau yn gweithio ai peidio.
- 9.2 Mae gan lawer o Landlordiaid Cymdeithasol eisoes record profedig yn y maes hwn ac maent wedi sefydlu ystod o ddulliau ar gyfer sicrhau adborth gan gwsmeriaid. Mae'r opsiynau sydd ar gael yn cynnwys grwpiau ffocws, cymdeithasau neu fforymau tenantiaid, arolygon parhaus ac arolygon bob hyn a hyn o agweddau tenantiaid. Yn ddelfrydol, dylid defnyddio ystod o wahanol fesurau. Dylai'r fethodoleg hefyd sicrhau bod tenantiaid sydd ag anawsterau cyfathrebu yn cael cymorth priodol, i'w galluogi i fynegi eu barn.

- 9.3 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried defnyddio methodoleg gyffredin ar gyfer meincnodi boddhad cwsmeriaid tai cymdeithasol ar draws y sector tai cymdeithasol. Mae hyn eisoes yn cael ei wneud yn Lloegr, lle mae'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol yn prosesu arolwg safonedig o denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld yn Atodiad?. Byddwn yn trafod y syniad yn fanwl â Ffederasiwn Tenantiaid Cymru a TPAS (Cymru). Fodd bynnag, fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn dymuno mesur lefel gyffredinol y gefnogaeth i'r syniad hwn a holi Landlordiaid Cymdeithasol a fyddent yn awyddus i gymryd rhan.

CWESTIWN 3: 'A fydddech chi'n croesawu gweld gwasanaeth cyffredin boddhad cwsmeriaid yn cael ei ddatblygu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cymru?' (tebyg i'r model yn Atodiad ?)

## **10. Dangosyddion Perfformiad**

- 10.1 Wrth ddatblygu eu Dangosyddion Perfformiad eu hunain, dylai Landlordiaid Cymdeithasol gymryd i ystyriaeth y Dangosyddion Perfformiad eraill a gesglir:
- (i) Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau a Dangosyddion Perfformiad eraill a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol
  - (ii) dangosyddion lleol presennol y Landlord Cymdeithasol ei hun, a osodwyd gan ymgynghori â thenantiaid, partneriaid meincnodi, ac eraill
- 10.2 Ni ddylai Landlordiaid Cymdeithasol ddisgwyl unrhyw newidiadau yn syth yn y Dangosyddion Perfformiad a gesglir gan y Cynulliad Cenedlaethol, o leiaf nid yn 2001/2002. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch dangosyddion addas a chytgordio â Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau awdurdodau lleol, yn y Grwp Gwerth Gorau Tai a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw newidiadau'n dod i rym tan 2002-2003 fan gynharaf. Disgwylir y bydd angen math o Ddangosydd Perfformiad sydd yn casglu gwybodaeth am gyfranogiad tenantiaid a'u boddhad. Efallai y bydd Dangosyddion Perfformiad eraill yn cael eu gadael allan neu eu cyfuno er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar Landlordiaid Cymdeithasol. Rydym hefyd yn annog Landlordiaid Cymdeithasol i edrych i mewn i'w defnydd o'u dangosyddion eu hunain ar gyfer meysydd llai mesuradwy o safbwynt meintiol, er enghraifft aflonyddu, ymddygiad gwrth-gymdeithasol, cyfraniad o ran rhoi cartrefi i bobl ddigartref, materion cynnaladwyedd tai, ayb.

- 10.3 Mae'r Cynulliad yn credu bod potensial i wella perfformiad yr holl Landlordiaid Cymdeithasol. Rydym yn argymhell y dylai pob Landlord Cymdeithasol anelu at gyrraedd y safonau a osodir ar hyn o bryd gan y 25% sy'n perfformio orau, yn unol â'r rhestr yn ein dangosyddion perfformiad a gyhoeddwyd. Disgwyliwn i Gynlluniau Perfformiad gynnwys gwybodaeth am sut y mae perfformiad y Landlord Cymdeithasol yn cymharu â'r perfformwyr uchaf hyn, a sut y mae'n bwriadu symud tuag at y lefel honno o berfformiad neu wella arni.

CWESTIWN 4: Pa Ddangosyddion Perfformiad y byddech chi'n eu hystyried yn fuddiol i gynorthwyo proses Gwerth Gorau ar gyfer cymharu, gosod targedau, a dangos bod y Landlord Cymdeithasol yn parhau i wella, ac ar gyfer rhoi adroddiadau i'w denantiaid a'i gwsmeriaid?

## 11. Cynllunio ar gyfer Gwerth Gorau

- 11.1 Mae arnom eisiau i Landlordiaid Cymdeithasol integreiddio egwyddorion Gwerth Gorau i bopeth a wnânt. Fodd bynnag, mae peryglon o'i hyrwyddo fel 'prosiect' neu 'fenter'. Er enghraifft, gall staff feddwl amdano fel ymarfer o fewn cyfnod penodedig nad yw'n rhan o'r gweithgaredd canolog.
- 11.2 Bydd angen cynllunio'n drylwyr. Rydym yn argymhell y dylai Landlordiaid Cymdeithasol lunio 'Cynllun Gweithredu Gwerth Gorau', yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar gyfer:
- : cyd-drefnu yn gyffredinol a rhoi adroddiadau
  - : rheoli'r prosiect ar y cychwyn a rhoi rhan i'r staff
  - : cyfathrebu a chydweithio â phreswylwyr
  - : systemau a gwasanaethau cefnogol
  - : rheoli risg
- 11.3 Rhan allweddol o'r broses gynllunio fydd dyfeisio 'arfau' ar gyfer cynnal adolygiadau. Mae angen i bob corff gael ymagwedd glir a chyson, a ddeallir gan bawb ac sydd ym 'mherchnogaeth' pawb. Bydd gan rai fethodoleg wedi ei sefydlu yn barod, ac efallai na fydd angen newid fawr ddim neu ddim o gwbl arni. Efallai y bydd yn rhaid i eraill ddechrau o'r cychwyn cyntaf a byddem yn eu cynghori hwy i gynnal peilot ar gyfer eu dulliau yn gyntaf. Unwaith y bydd Gwerth Gorau wedi ymsefydlu, bydd angen adolygu'r fethodoleg adolygu ei hun yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn drylwyr, deinamig a heriol.
- 11.4 Dylai cynlluniau gweithredu Gwerth Gorau osod pwyslais arbennig ar hyfforddi. Rydym yn argymhell y dylai'r hyfforddi gynnwys staff, aelodau'r Bwrdd a thenantiaid, yn enwedig ar y cychwyn. Mae'n rhaid i

bawb rannu'r un ddealltwriaeth o'r cysyniad. Bydd hyfforddi ac adborth hefyd yn bwysig yn dilyn adolygiadau gwasanaeth. Mae angen i bawb sydd â rhan yn y broses wybod beth a ddysgwyd drwy'r broses, sut y mae'r corff yn bwriadu ymateb, ac ynghylch unrhyw newidiadau y bydd angen iddynt hwy fel unigolion eu gwneud efallai.

- 11.5 Bydd angen i Landlordiaid Cymdeithasol sydd â rhan eisoes mewn mentrau gwella (e.e. EFQM /model Rhagoriaeth Busnes, ISO 9000, Buddsoddwyr mewn Pobl, Marc Siarter) ystyried sut y byddant yn integreiddio'r rhain â Gwerth Gorau.

CWESTIWN 5: A oes gennych unrhyw sylwadau am sut y gall Gwerth Gorau gael ei integreiddio â gwaith presennol y corff ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus?
--

- 11.6 Mae'n rhaid mynd i'r afael ag ystyriaethau cost hefyd wrth gynllunio. Yn y tymor byr, nid yw Gwerth Gorau'n debygol o arwain at arbedion, gan y bydd costau ar gyfer ei sefydlu. Er enghraifft, amser staff, hyfforddiant, newidiadau mewn TG a systemau gwybodaeth, a chostau cyhoeddusrwydd ac arolygon. Mae angen cynllunio a chyllidebu ar gyfer y rhain. Mewn amser, bydd potensial sylweddol ar gyfer enillion effeithlonrwydd wrth i'r rhaglen Gwerth Gorau ennill ei phlwyf ac wrth i bawb sy'n cymryd rhan ymgyfarwyddo â'r broses.
- 11.7 Nid dim ond un dull cywir sydd ar gyfer Gwerth Gorau, ond mae'n bosibl y bydd Landlordiaid Cymdeithasol yn ei chael yn fuddiol sicrhau bod eu fframwaith yn adlewyrchu'r holl elfennau allweddol a nodwyd gennym ni. Ceir model o fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad ynglwm yma yn Atodiad ?.
- 11.8 Cynigiwn yr amserlen a ganlyn i Landlordiaid Cymdeithasol fabwysiadu eu fframwaith Gwerth Gorau:

Erbyn 1 Ebrill 2001:

Yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn y cyfarwyddyd blaenorol, disgwylir i Landlordiaid Cymdeithasol fod wedi rhoi eu Cytundeb(au) Tenantiaid ar waith yn llawn erbyn y dyddiad hwn.

Erbyn 1 Ebrill 2002

Disgwylir i Landlordiaid Cymdeithasol fod wedi sefydlu gweddill yr elfennau yn eu Fframwaith Gwerth Gorau gan gynnwys, o leiaf, eu methodoleg ar gyfer cynnal adolygiadau gwasanaeth, eu rhaglenni adolygu gwasanaethau a'u mecanweithiau ar gyfer mesur ac arfarnu boddhad cwsmeriaid.

Erbyn 1 Gorffennaf 2002:

Disgwylir i Landlordiaid Cymdeithasol fod wedi sefydlu eu Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau, a ddylai gynnwys manylion am eu perfformiad yn ystod 2001/2, eu targedau ar gyfer 2002/3, a chymariaethau rhwng eu perfformiad a pherfformiad y 'perfformwyr uchaf', fel y'u diffinnir gan y dangosyddion perfformiad a gyhoeddwyd ar gyfer 2000/1. Fodd bynnag, byddem yn annog Landlordiaid Cymdeithasol sy'n teimlo'n barod i gynhyrchu Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer 2001/2, i wneud hynny.

*CWESTIWN 6: A oes gennych unrhyw sylwadau am yr amserlen arfaethedig ar gyfer rhoi Gwerth Gorau ar waith?*

## **12. Gwerth Gorau a Rheoleiddio**

- 12.1 Mae Landlordiaid Cymdeithasol yng Nghymru yn ymfalchïo, a hynny yn briodol, am fod ganddynt enw da am ddarparu a dyfeisio. Nid ydym yn dymuno mygu eu creadigrwydd trwy eu gorlwytho â rhagor o reoleiddio.
- 12.2 Cynigiwn y dylai ein 'Gofynion Rheoleiddio' barhau i fod yn isafswm safon. Ni welwn unrhyw wrthdaro rhwng y rhain ac egwyddorion Gwerth Gorau. Mae Gofynion Rheoleiddio yn darparu lefel bwysig o gysur i denantiaid, benthycwyr, a'r cymunedau a wasanaethir gan Landlordiaid Cymdeithasol. Mae Landlord Cymdeithasol sydd eisoes yn bodloni Gofynion Rheoleiddio eisoes wedi mynd yn eithaf pell tuag at sicrhau Gwerth Gorau.
- 12.3 Fodd bynnag, rydym yn bwriadu adolygu'r Gofynion Rheoleiddio yn ystod 2001/2, ynghyd â'r awdit ac elfennau eraill y fframwaith rheoliadol. Mae'r paratodau wedi'u gwneud ar gyfer dechrau'r adolygiad hwn yn fuan a bydd papur ymgynghorol arall yn cael ei gyhoeddi yn fuan yn 2001/2. Byddwn yn cydweithio'n agos â Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, TPAS (Cymru), Cyngor y Benthycwyr Morgais ac eraill er mwyn dyfeisio'r trefniadau newydd.
- 12.4 Yn y tymor byr, nes bydd yr adolygiad hwn o'r rheoliadau wedi'i gwblhau, dim ond gyda'r Gofynion Rheoleiddio presennol y byddwn yn cynnal awdit ac yn gorfodi cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, achubir y cyfle yn ystod unrhyw ymweliadau awdit sy'n cael eu trefnu i drafod cynnydd y Landlord Cymdeithasol wrth iddo ymdrin â Gwerth Gorau.
- 12.5 Heb ragfarnu unrhyw ganlyniadau eraill a ddaw yn sgil yr adolygiad, gallwn gadarnhau yn awr ein bod yn bwriadu i'r pum elfen allweddol yn y *cyfarwyddyd* Gwerth Gorau a gyhoeddwn ar gyfer 2001/2 (h.y. y cynigion yn adrannau 5 i 9 yn y papur hwn) fod yn *ofynion* ar gyfer 2002/3. Bydd hyn yn golygu bod angen i Landlordiaid Cymdeithasol

gynllunio yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod Cynllun Perfformio a Rhaglen Adolygu Gwasanaeth clir wedi eu sefydlu erbyn Ebrill 2002.

- 12.6 Ers blynyddoedd lawer, mae Landlordiaid Cymdeithasol wedi wynebu proses gynhwysfawr lle mae eu Rheoleiddiwr yn archwilio risg. Mae llawer o gryfderau yn perthyn i'r drefn bresennol ond, fe ddadleuir, mae rhai beiau ynddi ac fe ddylid gwneud rhywbeth ynghylch y rheini. Er enghraifft, mae llawer yn credu bod gorbwyslais ar fanylion, a bod rhoi adroddiad ar eithriadau h.y. canolbwytio ar feysydd lle nad yw'r Landlord yn cydymffurfio â'r Gofynion Rheoleiddio, yn torri calonnau. Mae Gwerth Gorau yn gyfle delfrydol inni adolygu'r ffordd yr ydym yn ymdrin ag awdit.
- 12.7 Wrth gynllunio ein hadolygiad, rydym yn anelu at ddatblygu math o awdit sy'n annog Landlordiaid Cymdeithasol i ymgynraedd at ragoriaeth. Rydym hefyd yn bwriadu asesu'r mesurau dyfeisgar a gyflwynwyd eisoes gan y Comisiwn Archwilio, y Gorfforaeth Letya ac eraill wrth iddynt archwilio ar gyfer Gwerth Gorau. Yn benodol, rydym yn awyddus i gyflwyno trefn o adrodd yn agored, a gosod mwy o bwyslais ar asesu boddhad cwsmeriaid â gwasanaethau. Efallai y bydd angen i ni barhau i gynnal awdit risg yn y ffordd draddodiadol fel mesur wrth gefn ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol sy'n methu. Mae'n debyg y bydd y camau ar gyfer sicrhau bod Landlordiaid Cymdeithasol mewn sefyllfa ariannol iach hefyd yn parhau, e.e. anfon cyfrifon rheolaeth i mewn bob chwarter. Sut bynnag, bydd unrhyw newidiadau a wnawn yn cael eu profi'n drwyadl yn gyntaf trwy gyfrwng cyfres o archwiliadau peilot yn ddiweddarach eleni.

### **13. Hyrwyddo Gwerth Gorau**

- 13.1 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn sylweddoli bod ganddo ran bwysig i'w chwarae wrth annog Landlordiaid Cymdeithasol i fabwysiadu Gwerth Gorau. Bwriadwn eu cefnogi yn y broses hon mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys:
- Prosiectau Dyfeisgarwch ac Ymarfer Da (Adrannau 16 / 87)
  - Darparu cymhorthdal i Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru er mwyn hyrwyddo ymarfer da mewn Gwerth Gorau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol
  - Datblygu ymhellach arolwg cyffredin boddhad cwsmeriaid, mewn cydweithrediad â Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru
  - Ymweliadau awdit fel peilot i roi cynnig ar ffyrdd newydd o ymdrin ag awdit, sydd yn cwmpasu Gwerth Gorau
  - Datblygu'r fframwaith Dangosyddion Perfformiad ymhellach

CWESTIWN 7: beth arall y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei wneud er mwyn helpu Landlordiaid Cymdeithasol i roi Gwerth Gorau ar waith?
--

- 13.2 Gan fod Gwerth Gorau yn cynnwys pob agwedd ar y gwaith, rydym yn awyddus i ddatblygu a rhannu ymarfer da a dulliau ar gyfer ei hyrwyddo yn y tymor hwy. Byddwn yn gwahodd Landlordiaid Cymdeithasol ac eraill i wneud cynigion dan ein rhaglen Dyfeisgarwch a Grantiau Ymarfer Da Adran 16 / Adran 87 ynghylch sut y gellir cyflawni hyn.
- 13.3 Rydym yn bwriadu darparu atodiad manwl i'n cyfarwyddyd, gyda manylion am ffynonellau cyngor a gwybodaeth pellach, gan gynnwys cyhoeddiadau, cyfeiriadau ar gyfer cysylltu a safleoedd gwe.

#### **14. Materion ar gyfer Ymgynghori**

- 14.1 Yn ogystal â sylwadau ar arddull gyffredinol, cynnwys a defnyddioldeb y papur hwn, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awyddus i wybod eich barn am y cwestiynau penodol y tynnir sylw arbennig atynt yn y ddogfen hon, sef yn gryno:

- (i) A oes gennych unrhyw farn ar bum elfen hanfodol y fframwaith? A ydynt yn briodol? A ydynt yn ddigonol?
- (ii) A oes gennych fel Landlord Cymdeithasol eisoes fecanwaith ar gyfer adolygu gwasanaethau? A yw'r corff yn glir ynghylch sut y mae angen ei addasu os o gwbl er mwyn bodloni egwyddorion Gwerth Gorau?
- (iii) A fydddech chi'n croesawu gweld gwasanaeth cyffredin ar gyfer gwneud arolygon boddhad cwsmeriaid yn cael ei ddatblygu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cymru?
- (iv) Pa Ddangosyddion Perfformiad y bydddech chi'n eu hystyried yn fuddiol i gynorthwyo proses Gwerth Gorau ar gyfer cymharu, gosod targedau, a dangos bod y Landlord Cymdeithasol yn parhau i wella, ac ar gyfer rhoi adroddiadau i'w denantiaid a'i gwsmeriaid?
- (v) A oes gennych unrhyw sylwadau am sut y gall Gwerth Gorau gael ei integreiddio â gwaith presennol y corff ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus?
- (vi) A oes gennych unrhyw sylwadau am yr amserlen arfaethedig ar gyfer rhoi Gwerth Gorau ar waith?
- (vii) Beth arall y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei wneud er mwyn helpu Landlordiaid Cymdeithasol i roi Gwerth Gorau ar waith?





**15. Amserlen ar gyfer ymgynghori**

15.1 Er mwyn datblygu polisi yn gynhwysol, rydym yn cynnig y dylid dilyn y camau isod:

- \* Dogfen ymgynghorol Ymateb erbyn 23 Ebrill
- \* Cyfarfodydd ymgynghori (yng Ngogledd Cymru, y De-ddwyrain a'r De-orllewin) Mawrth 13, 15, 16
- \* Asesu'r atebion 23 Ebrill i 11 Mai
- \* Cyhoeddi cyfarwyddyd terfynol gydag amserlen weithredu Diwedd Mai/ i dechrau Mehefin 2001

15.2 Darperir gwybodaeth bellach am y gweithdai a'r seminarau cyn bo hir.

**16. Ymateb i'r ymgynghoriad a ble i'w anfon**

16.1 Dylech anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lythyr neu e-bost at:

Peter Owen  
Cyfarwyddwyr Tai  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 5785  
Ffacs: (029) 2082 5136  
E-bost: [peter.owen@wales.gsi.gov.uk](mailto:peter.owen@wales.gsi.gov.uk)

***MAE'N RHAID I'CH YMATEB GYRRAEDD ERBYN DYDD LLUN 23 EBRILL 2001 FAN BELLAF.***

16.2 Mae rhagor o gopiâu o'r papur ymgynghorol ar gael gan:

Susan Wyson  
Cyfarwyddwyr Tai  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 6938  
Ffacs: (029) 2082 5136  
E-bost: [susan.wyson@wales.gsi.gov.uk](mailto:susan.wyson@wales.gsi.gov.uk)

**Grwp Gwerth Gorau Tai y Cynulliad Cenedlaethol**

**Aelodaeth**

John Bader	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Lynne Edwards	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Peter Owen	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Allan Bond	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Anne Delaney	Swyddfa'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru
Keith Edwards	Y Sefydliad Tai Siartredig Yng Nghymru
David Evans	Sir a Dinas Abertawe ac Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Terry Hennigan	Ffederasiwn Tenantiaid Cymru
Roger Howard	Ffederasiwn Tenantiaid Cymru
Gareth Hughes Roberts	TPAS Cymru
Steve Partner	Cyngor Sir Fflint ac Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Richard Walker	Prifysgol Caerdydd
Tony Whitaker	Cymdeithas Tai Unedig Cymru ac Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru

**Gwerth Gorau Is-Grwp Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**

*(Mae'r grwp hwn wedi gwneud y gwaith manwl o baratoi y papur ymgynghorol)*

**Aelodaeth**

Mark Gardner	Cartrefi Cwm Dwyreiniol
David Hedges	Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru
Hugh Jones	Grwp Tai Gwalia
Kevin Protheroe	Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd
Mike Santon	Cymdeithas Tai Unedig Cymru
Robert Sparks	Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru
Allan Bond	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Chris Gittins	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Joy Kent	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Geoff Marlow	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Peter Owen	Cynulliad Cenedlaethol Cymru